Y Gwasanaeth Pensiwn

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Pwy ydym ni?

Lansiwyd y Gwasanaeth Pensiwn ym mis Ebrill 2002 fel rhan o agenda'r Llywodraeth ar gyfer moderneiddio'r broses o gyflenwi budd-daliadau i gwsmeriaid. Mae'r Gwasanaeth Pensiwn yn darparu gwasanaeth modern, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, ar gyfer pob math o fusnes sy'n ymwneud â phensiynau.

Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith o ganolfannau pensiwn ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, sy'n cyflenwi gwasanaethau fel talu Pensiwn y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn a thaliadau Tanwydd Gaeaf. Mae'r canolfannau pensiwn yn delio'n bennaf â chwsmeriaid dros y ffôn. Yn ogystal, caiff canolfannau pensiwn eu hategu gan wasanaeth lleol, a gyflenwir mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau sy'n gyfarwydd â delio ag anghenion pensiynwyr, mewn lleoliadau y gall pensiynwyr eu cyrraedd. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Pensiwn yn cyflogi tua 13,500 o bobl.

Ein Nod

Nod Y Gwasanaeth Pensiwn yw mynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo diogelwch ac annibyniaeth yn ystod ymddeoliad ar gyfer pensiynwyr heddiw a'r dyfodol drwy:

- darparu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer pensiynwyr heddiw;
- gwella ein gwasanaeth i bensiynwyr yn y dyfodol.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol yn y gwaith o foderneiddio'r Gwasanaeth Pensiwn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflenwi gwell profiad i gwsmeriaid.

Disgwylir y bydd y buddsoddiad hwn yn creu gwell gwasanaethau a chanlyniadau i gwsmeriaid ar gostau gweithredu is.

Disgwylir y bydd hefyd buddion i gyflogeion yn Y Gwasanaeth Pensiwn sef amgylchedd gwaith gwell, gwelliannau o ran ddysgu, y cyfle i ennill sgiliau newydd ac achredu a'r defnydd o TG fodern.

Gwasanaethau

Y prif wasanaethau y mae'r Gwasanaeth Pensiwn yn eu darparu yw:

- cyflenwi Pensiwn y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn a Thaliadau Tanwydd Gaeaf;
- darparu rhagolygon o Bensiwn y Wladwriaeth, yn uniongyrchol i unigolion ac i gyflogwyr a darparwyr pensiwn;
- gwybodaeth ac arweiniad am wasanaethau sy'n ymwneud â phensiynau a budd-daliadau eraill; a
- porth i wasanaethau eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gweithio yn y Gwasanaeth Pensiwn

Er mwyn cyflawni ein nodau o foderneiddio'r busnes, mae arnom angen pobl sydd â'r sgiliau a'r brwdfrydedd i gyflenwi ein gweledigaeth o brofiad y cwsmer. Rydym yn edrych am y math o berson sy'n:

- ymrwymedig i wneud gwahaniaeth i fywydau pensiynwyr;
- gwerthfawrogi'r angen i staff a'r Llywodraeth gyflenwi canlyniadau cadarn a chyrraedd targedau;

Ac i'r rhai sydd mewn rolau strategol

- troi strategaeth fusnes yn arfer; a
- meddu ar sgiliau a phrofiad o weithio gyda phobl, rheoli prosesau a/neu newid.

Bydd gofynion penodol y rôl yn dibynnu ar y maes busnes y cewch eich cyflogi o'i fewn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Y Gwasanaeth Pensiwn ar ein gwefan yn http://www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Y Gwasanaeth Pensiwn

BUDDSODDWR MEWN POBL

GADARN O BLAID NA · POBL ANABL